# Lefel Sylfaen

## Darlith 5

Defnyddio'r Trydydd Person / Hoffi ac Eisiau

# Lefel Sylfaen

## Darlith 5

Defnyddio'r Trydydd Person / Hoffi ac Isio

# Nodiadau i'r tiwtor

| **Yn y ddarlith hon, bydd y ffocws ar:** | **Technegau caffael iaith a ddefnyddir:** | **Bydd angen yr adnoddau canlynol arnoch chi:** |
|---|---|---|
| • Adolygu patrymau a ddysgwyd<br>• Patrymau 3ydd person:<br>Sut mae e / hi?<br>Ble mae e'n / hi'n byw?<br>Hoffi / ddim yn hoffi<br>Eisiau<br>Oes ... gyda fe / hi? | • Drilio – dril ailadrodd / cwestiwn ac ateb / dril disodli<br>• Tasg wrando – gwrando ar glip sain er mwyn llenwi'r bylchau mewn sgwrs<br>• Canu<br>• Chwarae gêm – defnyddio disiau poced a sach geiriau er mwyn ymarfer patrymau newydd<br>• Tasg gyfieithu – o'r Saesneg i'r Gymraeg | • byrddau gwyn unigol<br>• disau poced<br>• sach geiriau |

# Nodiadau i'r tiwtor

| Yn y ddarlith hon, bydd y ffocws ar: | Technegau caffael iaith a ddefnyddir: | Bydd angen yr adnoddau canlynol arnoch chi: |
|---|---|---|
| • Adolygu patrymau a ddysgwyd<br>• Patrymau 3ydd person:<br>Sut mae o / hi?<br>Lle mae o'n / hi'n byw?<br>Hoffi / ddim yn hoffi<br>Isio<br>Oes gynno fo / gynni hi ...? | • Drilio – dril ailadrodd / cwestiwn ac ateb / dril disodli<br>• Tasg wrando – gwrando ar glip sain er mwyn llenwi'r bylchau mewn sgwrs<br>• Canu<br>• Chwarae gêm – defnyddio disiau poced a sach geiriau er mwyn ymarfer patrymau newydd<br>• Tasg gyfieithu – o'r Saesneg i'r Gymraeg | • byrddau gwyn unigol<br>• disau poced<br>• sach geiriau |

# Allwedd


Ailadrodd


Ymarfer ar lafar (yn unigol)


Tasg wrando


Gwaith pâr


Grŵp o dri


Gwaith grŵp


Amser canu


Gwaith ar y byrddau gwyn


Tasg ysgrifennu


Tasg ddarllen


Help llaw


Tystiolaeth i’r Portffolio

# Y tabl treiglo

| **Llythyren cyn treiglo**<br>*Original letter* | **Treiglad Meddal**<br>*Soft Mutation* | **Treiglad Trwynol**<br>*Nasal Mutation* | **Treiglad Llaes**<br>*Aspirate Mutation* |
|---|---|---|---|
| p | b | mh | ph |
| t | d | nh | th |
| c | g | ngh | ch |
| b | f | m | |
| d | dd | n | |
| g | - | ng | |
| ll | l | | |
| m | f | | |
| rh | r | | |

# Ydych chi'n cofio?



Good morning.

How are you? (plural)

Good afternoon, everyone.

I'm very good, thank you.

Good morning, children.

Who are you? (singular)

How are you? (singular)

I am Siân.

# Dach chi'n cofio?



Good morning.

Good afternoon, everyone.

Good morning, children.

How are you? (singular)

How are you? (plural)

I'm very good, thank you.

Who are you? (singular)

I am Siân.

# Ydych chi'n cofio?



Bore da.

Sut ydych chi?

Prynhawn da, bawb.

Dw i'n dda iawn, diolch.

Bore da, blant.

Pwy wyt ti?

Sut wyt ti?

Siân ydw i.

# Dach chi’n cofio?



Bore da.

Sut dach chi?

Prynhawn da, bawb.

Dw i'n dda iawn, diolch.

Bore da, blant.

Pwy wyt ti?

Sut wyt ti?

Siân ydw i.

**Cyfieithwch y sgwrs gan ddefnyddio’r patrymau ddysgoch chi wythnos diwethaf.**

*Translate the conversation by using the Welsh patterns you learnt last week.*



A: **Good afternoon!**

B: **Hello! Who are you?**

A: **I'm Matthew.  Who are you?**

B: **I'm Mali.**

A: **How are you Mali?**

B: **I'm tired.  How are you?**

A: **I'm ill.**

B: **Oh, no!**

# Gwrandewch yn ofalus a llenwch y bylchau.

*Listen carefully and fill in the gaps.*



A: **Bore da.**

B: **Bore da.  Pwy wyt ti?**

A: **_______ ydw i.  Pwy wyt ti?**

B: **Rhian ydw i.  ________________?**

A: **Dw i'n _________.  ________ wyt ti'n byw?**

B: **Dw i'n byw yng _____________________.**

A: **A fi!**

B: **Beth wyt ti'n ____________?**

A: **Dw i'n hoffi _____________, chwarae rygbi a ______________.**



# Gwrandewch yn ofalus a llenwch y bylchau.

*Listen carefully and fill in the gaps.*



| | |
|---|---|
| A: | **Bore da.** |
| B: | **Bore da.  Pwy wyt ti?** |
| A: | **_______ ydw i.  Pwy wyt ti?** |
| B: | **Rhian ydw i.  _______________?** |
| A: | **Dw i'n _________.  ________ wyt ti'n byw?** |
| B: | **Dw i'n byw yng ____________________.** |
| A: | **A fi!** |
| B: | **Be wyt ti'n ___________?** |
| A: | **Dw i'n hoffi _____________, chwarae rygbi a ______________.** |

**Angen clip sain.**

# Gwrandewch yn ofalus a llenwch y bylchau.

*Listen carefully and fill in the gaps.*



| | |
|---|---|
| A: | **Bore da.** |
| B: | **Bore da.  Pwy wyt ti?** |
| A: | **Rhys ydw i.  Pwy wyt ti?** |
| B: | **Rhian ydw i.  Sut wyt ti?** |
| A: | **Dw i'n iawn, diolch.  Ble wyt ti'n byw?** |
| B: | **Dw i'n byw yng Nghaerfyrddin.** |
| A: | **A fi!** |
| B: | **Beth rwyt ti'n hoffi?** |
| A: | **Dw i'n hoffi darllen, chwarae rygbi a nofio.** |

**Angen clip sain.**

# Gwrandewch yn ofalus a llenwch y bylchau.

*Listen carefully and fill in the gaps.*



| | |
|---|---|
| A: | **Bore da.** |
| B: | **Bore da.  Pwy wyt ti?** |
| A: | **Rhys ydw i.  Pwy wyt ti?** |
| B: | **Rhian ydw i.  Sut wyt ti?** |
| A: | **Dw i’n iawn, diolch.  Lle wyt ti’n byw?** |
| B: | **Dw i’n byw yng Nghaerfyrddin.** |
| A: | **A fi!** |
| B: | **Be wyt ti’n hoffi?** |
| A: | **Dw i’n hoffi darllen, chwarae rygbi a nofio.** |

**Angen clip sain.**

# **Beth wyt ti'n hoffi?** *What do you like?*

| | |
|---|---|
| **Beth wyt ti'n hoffi?** | *What do you like? (singular)* |
| **Rydw i'n hoffi ...** | *I like ...* |
| **Dw i'n hoffi ...** | |
| | |
| **Beth rydych chi'n hoffi?** | *What do you like? (formal singular / plural)* |
| **Rydw i'n hoffi ...** | *I like ...* |
| **Dw i'n hoffi ...** | |
| **Rydyn ni'n hoffi ...** | *We like ...* |
| **'Dyn ni'n hoffi ...** | |

# **Be wyt ti'n hoffi / licio?** *What do you like?*

| | |
|---|---|
| **Be wyt ti'n hoffi / licio?** | *What do you like? (singular)* |
| **Rydw i'n hoffi / licio ...** | *I like ...* |
| **Dw i'n hoffi / licio ...** | |
| | |
| **Be dach chi'n hoffi / licio?** | *What do you like? (formal singular / plural)* |
| **Rydw i'n hoffi / licio ...** | *I like ...* |
| **Dw i'n hoffi / licio ...** | |
| **Dan ni'n hoffi / licio ...** | *We like ...* |

# Dw i'n hoffi ...!

(#She'll be coming round the mountain)

**Rydw i'n hoffi mynd i'r ysgol, ydw wir!**
**Rydw i'n hoffi mynd i'r ysgol, ydw wir!**
**Rydw i'n hoffi mynd i'r ysgol**
**Rydw i'n hoffi mynd i'r ysgol**
**Rydw i'n hoffi mynd i'r ysgol, ydw wir!**

**bwyta siocled,**
**dawnsio disgo,**
**darllen llyfr...**

# Beth dwyt ti ddim yn hoffi?

**Beth dwyt ti ddim yn hoffi?**
**Dydw i ddim yn hoffi ...**
**Dw i ddim yn hoffi ...**

**Beth dydych chi ddim yn hoffi?**
**Dydw i ddim yn hoffi ...**
**Dw i ddim yn hoffi ...**
**Dydyn ni ddim yn hoffi ...**
**'Dyn ni ddim yn hoffi ...**

*What don't you like? (singular)*
*I don't like ...*

*What don't you like? (formal singular / plural)*
*I don't like ...*

*We don't like ...*

# Be dwyt ti ddim yn hoffi / licio?

**Be dwyt ti ddim yn hoffi / licio?** — *What don't you like? (singular)*

**Dydw i ddim yn hoffi / licio ...** — *I don't like ...*

**Dw i ddim yn hoffi / licio ...**

**Be dach chi ddim yn hoffi / licio?** — *What don't you like? (formal singular / plural)*

**Dydw i ddim yn hoffi / licio ...** — *I don't like ...*

**Dw i ddim yn hoffi / licio ...**

**Dan ni ddim yn hoffi / licio ...** — *We don't like ...*

# Beth wyt ti’n hoffi? / Beth dwyt ti ddim yn hoffi?















# Be wyt ti’n hoffi / licio? / Be dwyt ti ddim yn hoffi / licio?















# Wyt ti'n hoffi?

Wyt ti'n hoffi dysgu Cymraeg?

**Ydw, dw i'n hoffi dysgu Cymraeg.**

# Wyt ti'n hoffi / licio?

Wyt ti'n hoffi / licio dysgu Cymraeg?

**Ydw, dw i'n hoffi / licio dysgu Cymraeg.**

# Ydych chi’n hoffi?

Ydych chi'n hoffi dysgu Cymraeg?

**Ydw, dw i'n hoffi dysgu Cymraeg.**

**Ydyn, rydyn ni'n hoffi dysgu Cymraeg.**

# Dach chi’n hoffi / licio?

Dach chi'n hoffi / licio dysgu Cymraeg?

**Ydw, dw i'n hoffi / licio dysgu Cymraeg.**

**Ydan, dan ni'n hoffi / licio dysgu Cymraeg.**

# Wyt ti'n hoffi?

Wyt ti'n hoffi Mathemateg?

**Nac ydw, dw i ddim yn hoffi Mathemateg.**

# Wyt ti’n hoffi / licio?

Wyt ti'n hoffi / licio Mathemateg?

**Nac ydw, dw i ddim yn hoffi / licio Mathemateg.**

# Ydych chi’n hoffi?

Ydych chi'n hoffi Mathemateg?

**Nac ydw, dw i ddim yn hoffi Mathemateg.**

**Nac ydyn, dydyn ni ddim yn hoffi Mathemateg.**

# Dach chi'n hoffi / licio?

Dach chi'n hoffi / licio Mathemateg?

**Nac ydw, dw i ddim yn hoffi / licio Mathemateg.**

**Nac ydan, dan ni ddim yn hoffi / licio Mathemateg.**

# Pam?!

**Ydw**, dw i'n hoffi ...

| | |
|---|---|
| **achos...** | mae'n hwyl. |
| | mae'n ddiddorol. |
| | mae'n fendigedig. |
| | mae'n ffordd dda i ymlacio. |
| | dw i'n hoffi cadw'n heini. |
| | dw i'n hoffi ennill! |
| | dw i'n gystadleuol. |
| | dw i'n hoffi cael awyr iach. |

# Pam?!

**Nac ydw**, dw i ddim yn hoffi ...

| | |
|---|---|
| **achos...** | mae'n ddiflas. |
| | mae'n anodd. |
| | dw i ddim yn hoffi cadw'n heini. |
| | dw i ddim yn hoffi bod tu mewn. |
| | dw i ddim yn hoffi bod tu allan. |
| | dw i ddim yn hoffi colli. |
| | dw i ddim yn gystadleuol. |

# Wyt ti'n hoffi?



**<u>Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:</u>**

1. Bydd angen yr un sach â'r ddarlith diwethaf arnoch chi.
2. Bydd angen dis poced arnoch.  Rhowch y lluniau (sleid nesaf) yn y pocedi.
3. Rhowch y cardiau (sleid 18/19) yn y sach.
4. Rhannwch y myfyrwyr i grwpiau o 3 neu 4.
5. Rhowch sach a dis i bob grwp.
6. Bydd angen i un myfyriwr ddechrau'r gêm drwy holi:  "**Wyt ti'n hoffi ....?**" gan ddewis llun o'r sach.
7. Taflwch y dis – os bydd yn glanio ar y llun bawd i fyny bydd disgwyl ateb yn gadarnhaol.  Os bydd y dis yn glanio ar y llun o fawd i lawr yna bydd angen ateb drwy ddefnyddio'r patrwm negyddol.



# Wyt ti'n hoffi / licio?



**Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:**

1. Mi fydd angen yr un sach â'r ddarlith diwethaf arnoch chi.
2. Mi fydd angen dis poced arnoch. Rhowch y lluniau (sleid nesaf) yn y pocedi.
3. Rhowch y cardiau (sleid 18/19) yn y sach.
4. Rhannwch y myfyrwyr i grwpiau o 3 neu 4.
5. Rhowch sach a dis i bob grwp.
6. Mi fydd angen i un myfyriwr ddechrau'r gêm drwy holi:
7. "**Wyt ti'n hoffi / licio ....?**" gan ddewis llun o'r sach.
8. Taflwch y dis – os bydd yn glanio ar y llun bawd i fyny bydd disgwyl ateb yn gadarnhaol. Os bydd y dis yn glanio ar y llun o fawd i lawr yna bydd angen ateb drwy ddefnyddio'r patrwm negyddol.



# Wyt ti’n hoffi?





| | | | |
|---|---|---|---|
| **te** | **coffi** | **sudd afal** | **dŵr** |
| **darllen** | **gwylio’r teledu** | **rhedeg** | **cerdded** |
| **nofio** | **canu** | **dawnsio** | **pitsa** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cymraeg**  | **Saesneg**   | **Mathemateg**   | **Gwyddoniaeth**  |
| **Daearyddiaeth**  | **Hanes**  | **Celf**  | **Addysg Grefyddol**  |
| **Cerddoriaeth**  | **Addysg Gorfforol**  | **Technoleg Gwybodaeth**  | **Ffraneg**  |

# Pa …. wyt ti'n hoffi?

*Which … do you like?*

| | | |
|---|---|---|
| Pa **liw** *(colour)* | wyt ti'n hoffi? | Rydw i'n hoffi **gwyrdd.** |
| | | Dw i'n hoffi **gwyrdd.** |
| Pa **ffrwyth** *(fruit)* | wyt ti'n hoffi? | Rydw i'n hoffi **afal.** |
| | | Dw i'n hoffi **afal.** |
| Pa **lyfr** *(book)* | wyt ti'n hoffi? | Rydw i'n hoffi llyfrau **Harry Potter**. |
| | | Dw i'n hoffi llyfrau **Harry Potter**. |

# **Eisiau** *To want*

Dw i eisiau coffi.
Dw i ddim eisiau coffi.

Dw i~~'n~~ eisiau coffi.
Dw i ddim ~~yn~~ eisiau coffi.

Does dim **yn** neu **'n** o flaen '**eisiau**'.

*There is no yn or 'n before 'eisiau'.*

# **Isio** *To want*

Dw i isio coffi.
Dw i ddim isio coffi.

Dw i~~'n~~ isio coffi.
Dw i ddim ~~yn~~ isio coffi.

Does dim **yn** neu **'n** o flaen 'isio'.

*There is no yn or 'n before 'isio'.*

# **Eisiau** *To want*

Ydych chi'n cofio ...

*Do you remember ...*

**<u>Beth</u> wyt ti'n hoffi?**

**<u>Beth</u> wyt ti'n hoffi?**

Gallwch chi ddefnyddio'r un patrwm cwestiwn wrth ddweud:

*You can use the same pattern by changing* 'hoffi' *for* 'eisiau':

**<u>Beth</u> wyt ti eisiau?**

**<u>Beth</u> wyt ti eisiau?**

*<u>What</u> do you want?*

Does dim **yn** neu **'n** o flaen '**eisiau**'.

# **Isio** *To want*

Dach chi'n cofio ...

*Do you remember ...*

**Be wyt ti'n hoffi / licio?**

**Be wyt ti'n hoffi / licio?**

Gallwch chi ddefnyddio'r un patrwm cwestiwn wrth ddweud:

*You can use the same pattern by changing* 'hoffi' *for* 'eisiau':

**Be wyt ti isio?**

**Be wyt ti isio?**

*What do you want?*

Does dim **yn** neu **'n** o flaen '**isio**'.

# Amser egwyl ...



## Wyt ti eisiau ...?

Ydw, dw i eisiau ...

Ydw, os gwelwch yn dda.

Nac ydw, dw i **dd**im eisiau ...

Na, dim diolch.

| | | |
|---|---|---|
| **te**  | **coffi**  | **dŵr**  |
| **llaeth**  | **afal**  | **siwgr**  |
| **banana**  | **grawnwin**  | **ffrwyth**  |
| **mefus**  | **bisgïen**  | **cacen**  |

## Ydych chi eisiau ...?

Ydyn, rydyn ni eisiau ...

Ydyn, os gwelwch yn dda.

Nac ydyn, dydyn ni **dd**im eisiau ...

Na, dim diolch.

# Amser egwyl ...



## Wyt ti isio ...?

Oes / Ydw, dw i isio ...

Oes / Ydw, os gwelwch yn dda.

Nac oes / Nac ydw, dw i ddim isio ...

Na, dim diolch.

| | | |
|---|---|---|
| **te**  | **coffi**  | **dŵr**  |
| **llefrith**  | **afal**  | **siwgr**  |
| **banana**  | **grawnwin**  | **ffrwyth**  |
| **mefus**  | **bisgïen**  | **cacen**  |

## Dach chi isio ...?

Oes / Ydan, dan ni isio ...

Oes / Ydan, os gwelwch yn dda.

Nac oes / Nac ydan, dan ni ddim isio ...

Na, dim diolch.

# **Oes ... gyda ti?** *Do you have ...?*

Oes pensil gyda ti?

Oes gwallt brown gyda ti?

Oes ci gyda ti?

Oes brawd gyda ti?

**Oes**

**Nac oes**

# **Oes gen ti ...?** *Do you have ...?*

Oes gen ti **b**ensil?

Oes gen ti **w**allt brown?

Oes gen ti **g**i?

Oes gen ti **f**rawd?

**Oes**

**Nac oes**

# Y trydydd person *The third person*

**hi**



**fe**

# **Y trydydd person** *The third person*

**hi**



**fo**

# Y trydydd person

Pwy ydy **hi**?

*Who is **she**?*



Pwy ydy **e**?

*Who is **he**?*

**... ydy hi.**

*She is ...*

**... ydy e.**

*He is ...*

# Y trydydd person

Pwy ydy **hi**?

*Who is **she**?*

**... ydy hi.**

*She is ...*



Pwy ydy **o**?

*Who is **he**?*

**... ydy o.**

*He is ...*

# Y trydydd person

Sut mae **hi**?

*How is **she**?*

**Mae hi'n ...**

*She is ...*



Sut mae **e**?

*How is **he**?*

**Mae e'n ...**

*He is ...*

# Y trydydd person

Sut mae **<u>hi</u>**?

*How is **<u>she</u>**?*

**Mae hi'n ...**

*She is ...*



Sut mae **<u>o</u>**?

*How is **<u>he</u>**?*

**Mae o'n ...**

*He is ...*

# Sut mae e?





**Mae e'n <u>d</u>rist.**

# Sut mae o?





**Mae o'n drist.**

# Sut mae hi?





**Mae hi'n hapus.**

# Sut mae hi?





**Mae hi'n sâl.**

# Sut mae e?





**Mae e wedi blino.**

# Sut mae o?





**Mae o wedi blino.**

# Sut mae e?





**Mae e'n <u>f</u>endigedig.**

# Sut mae o?



**Mae o'n fendigedig.**

# Y trydydd person

Ble mae **<u>hi’n</u>** byw?

*Where does **<u>she</u>** live?*

Mae hi’n byw yn...

*She lives in ...*



Ble mae **<u>e’n</u>** byw?

*Where does **<u>he</u>** live?*

Mae e’n byw yn...

*He lives in ...*

# Y trydydd person

Lle mae **<u>hi'n</u>** byw?

*Where does* ***<u>she</u>*** *live?*

Mae hi'n byw yn...

*She lives in ...*



Lle mae **<u>o'n</u>** byw?

*Where does* ***<u>he</u>*** *live?*

Mae o'n byw yn...

*He lives in ...*





Ble mae **<u>hi’n</u>** byw?

Mae hi’n byw yn...



Ble mae **<u>e’n</u>** byw?

Mae e’n byw yn...

'**yn**' + **place name** = **Treiglad Trwynol** *(Nasal Mutation)*





Lle mae **<u>hi’n</u>** byw?

Mae hi’n byw yn...



Lle mae **<u>o’n</u>** byw?

Mae o’n byw yn...

'**yn**' + **place name** = **Treiglad Trwynol** *(Nasal Mutation)*

# Y Treiglad Trwynol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| p | t | c | b | d | g |
| ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ | ↓ |
| mh | nh | ngh | m | n | ng |

# Ble mae e’n / hi'n byw?



**Mae e'n / hi’n byw yn …**
*He / She lives in …*

yn + Aberaeron

yn + Pontyberem

yn + Llanbed

yn + Caerfyrddin

yn + Tymbl

yn + Dinbych

yn + Caergybi

# Lle mae o’n / hi'n byw?



**Mae o'n / hi’n byw yn …**

*He / She lives in …*

yn + Aberaeron

yn + Pontyberem

yn + Llanbed

yn + Caerfyrddin

yn + Tymbl

yn + Dinbych

yn + Caergybi

# Ble mae e'n / hi’n byw?



tŷ ar wahân



byngalo



tŷ teras



fflat



tŷ pâr



bwthyn



ffermdy



carafán

# Lle mae o'n / hi’n byw?



tŷ ar wahân



byngalo



tŷ teras



fflat



tŷ pâr



bwthyn



ffermdy



carafán

# Ble mae e'n / hi’n byw?

**Mae e’n byw yng <u>Ngh</u>eredigion mewn tŷ ar wahân.**

**Mae hi'n byw ym <u>M</u>angor mewn fflat.**

<u>**RHEOL:**</u>

**yn** = lle penodol
*(definite place)*

**mewn** = lle amhenodol
*(indefinite place)*

# Lle mae o'n / hi’n byw?

**Mae o’n byw yng <u>Ngh</u>eredigion mewn tŷ ar wahân.**

**Mae hi'n byw ym <u>M</u>angor mewn fflat.**

<u>**RHEOL:**</u>

**yn** = lle penodol
*(definite place)*

**mewn** = lle amhenodol
*(indefinite place)*



**Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:**

1. Bydd angen disau poced arnoch chi.
2. Rhannwch y myfyrwyr i grwpiau o 3.
3. Bydd angen dau ddis ar bob grwp.  Ar un dis bydd y rhagenwau – **hi** a **fe**. Ar yr ail ddis bydd enwau llefydd (sleidiau i ddilyn).
4. Bydd angen taflu'r ddau ddis a chreu brawddeg, e.e. **hi** + **Caerdydd** = **Mae hi'n byw <u>yng Ngh</u>aerdydd.**
5. Bydd pawb yn y grwp yn cael cyfle i ymarfer.





**Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:**

1. Mi fydd angen disau poced arnoch chi.
2. Rhannwch y myfyrwyr i grwpiau o 3.
3. Mi fydd angen dau ddis ar bob grwp.  Ar un dis bydd y rhagenwau – **hi** a **fo**. Ar yr ail ddis bydd enwau llefydd (sleidiau i ddilyn).
4. Mi fydd angen taflu'r ddau ddis a chreu brawddeg, e.e. **hi** + **Caerdydd** = **Mae hi'n byw yng Nghaerdydd.**
5. Mi fydd pawb yn y grwp yn cael cyfle i ymarfer.

# Enwau llefydd + fe / hi



| | | |
|---|---|---|
| hi | fe | hi |
| fe | hi | fe |

# Enwau llefydd + fo / hi



| | | |
|---|---|---|
| hi | fo | hi |
| fo | hi | fo |

# Enwau llefydd + fe / hi



| | | |
|---|---|---|
| Ceredigion | Bangor | Caerdydd |
| Treherbert | Pontypridd | Gwynedd |

# Enwau llefydd + fe / hi



| | | |
|---|---|---|
| Casnewydd | Blaenau Gwent | Dinbych |
| Trefynnon | Penllwyn | Gelligaer |

# Enwau llefydd + fo / hi



| | | |
|---|---|---|
| Ceredigion | Bangor | Caerdydd |
| Treherbert | Pontypridd | Gwynedd |

# Enwau llefydd + fo / hi



| | | |
|---|---|---|
| Casnewydd | Blaenau Gwent | Dinbych |
| Trefynnon | Penllwyn | Gelligaer |

# O ble mae e'n / hi'n dod yn wreiddiol?

*Where does he / she come from originally?*

| | | |
|---|---|---|
| Pen-y-bont | > | **Mae e'n dod o Ben-y-bont yn wreiddiol.** |
| Tregaron | > | **Mae hi'n dod o Dregaron yn wreiddiol.** |
| Caerdydd | > | **Mae e'n dod o Gaerdydd yn wreiddiol.** |
| Bangor | > | **Mae hi'n dod o Fangor yn wreiddiol.** |

**'dod o' + Treiglad Meddal** *(Soft Mutation)*

| | | |
|---|---|---|
| **p** | **>** | **b** |
| **t** | **>** | **d** |
| **c** | **>** | **g** |
| **b** | **>** | **f** |
| **d** | **>** | **dd** |
| **g** | **>** | **/** |
| **m** | **>** | **f** |
| **ll** | **>** | **l** |
| **rh** | **>** | **r** |

# O lle mae o'n / hi'n dŵad yn wreiddiol?

*Where does he / she come from originally?*

| | | |
|---|---|---|
| Pen-y-bont | > | **Mae o'n dŵad o Ben-y-bont yn wreiddiol.** |
| Tregaron | > | **Mae hi'n dŵad o Dregaron yn wreiddiol.** |
| Caerdydd | > | **Mae o'n dŵad o Gaerdydd yn wreiddiol.** |
| Bangor | > | **Mae hi'n dŵad o Fangor yn wreiddiol.** |

'**dŵad o**' + **Treiglad Meddal** *(Soft Mutation)*

| | | |
|---|---|---|
| **p** | **>** | **b** |
| **t** | **>** | **d** |
| **c** | **>** | **g** |
| **b** | **>** | **f** |
| **d** | **>** | **dd** |
| **g** | **>** | **/** |
| **m** | **>** | **f** |
| **ll** | **>** | **l** |
| **rh** | **>** | **r** |

# O ble mae e'n dod?




**Mae e'n dod o...**

# O lle mae o'n dŵad?




## Mae o'n dŵad o...

# O ble mae e'n dod?



**Mae e'n dod o...**

# O lle mae o'n dŵad?



**Mae o'n dŵad o...**

# O ble mae e'n dod?



**Mae e'n dod o...**

# O lle mae o'n dŵad?



**Mae o'n dŵad o...**

# O ble mae hi'n dod?



**Mae hi'n dod o...**

# O lle mae hi'n dŵad?



**Mae hi'n dŵad o...**

# O ble mae hi'n dod?




## Mae hi'n dod o...

# O lle mae hi'n dŵad?




**Mae hi'n dŵad o...**

# Beth mae e'n / hi’n hoffi?

*What does he / she like?*

| | |
|---|---|
| **Beth mae e’n hoffi?** | *What does he like?* |
| **Mae e’n hoffi ... .** | *He likes ...* |
| **Beth dydy e ddim yn hoffi?** | *What doesn’t he like?* |
| **Dydy e ddim yn hoffi ... .** | *He doesn’t like ...* |
| | |
| **Beth mae hi’n hoffi?** | *What does she like?* |
| **Mae hi’n hoffi ... .** | *She likes ...* |
| **Beth dydy hi ddim yn hoffi?** | *What doesn’t she like?* |
| **Dydy hi ddim yn hoffi ... .** | *She doesn’t like ...* |

# Be mae o'n / hi’n hoffi / licio?

*What does he / she like?*

| | |
|---|---|
| **Be mae o’n hoffi / licio?** | *What does he like?* |
| **Mae o’n hoffi / licio ...** | *He likes ...* |
| **Be dydy o ddim yn hoffi / licio?** | *What doesn’t he like?* |
| **Dydy o ddim yn hoffi / licio ...** | *He doesn’t like ...* |
| **Be mae hi’n hoffi / licio?** | *What does she like?* |
| **Mae hi’n hoffi / licio ...** | *She likes ...* |
| **Be dydy hi ddim yn hoffi / licio?** | *What doesn’t she like?* |
| **Dydy hi ddim yn hoffi / licio ...** | *She doesn’t like ...* |

# Pam?!

Mae e’n hoffi ... **achos**...

Mae hi’n hoffi ... **achos**...

| |
|---|
| **mae'n hwyl.** |
| **mae'n ddiddorol.** |
| **mae'n fendigedig.** |
| **mae'n ffordd dda i ymlacio.** |
| **mae e'n / hi'n hoffi cadw'n heini.** |
| **mae e'n / hi'n hoffi ennill!** |
| **mae e'n / hi'n gystadleuol.** |
| **mae e'n / hi'n hoffi cael awyr iach.** |

# Pam?!

Mae o’n hoffi / licio ... **achos**...

Mae hi’n hoffi / licio ... **achos**...

| |
|---|
| **mae'n hwyl.** |
| **mae'n ddiddorol.** |
| **mae'n fendigedig.** |
| **mae'n ffordd dda i ymlacio.** |
| **mae o'n / hi'n hoffi cadw'n heini.** |
| **mae o'n / hi'n hoffi ennill!** |
| **mae o'n / hi'n gystadleuol.** |
| **mae o'n / hi'n hoffi cael awyr iach.** |

# Pam?!

Dydy e ddim yn hoffi ... **achos**...

Dydy hi ddim yn hoffi ... **achos**...

| |
|---|
| **mae'n ddiflas.** |
| **mae'n anodd.** |
| **dydy e / hi ddim yn hoffi cadw'n heini.** |
| **dydy e / hi ddim yn hoffi bod tu mewn.** |
| **dydy e / hi ddim yn hoffi bod tu allan.** |
| **dydy e / hi ddim yn hoffi colli.** |
| **dydy e / hi ddim yn gystadleuol.** |

# Pam?!

Dydy o ddim yn hoffi / licio
… **achos**…

Dydy hi ddim yn hoffi / licio
… **achos**…

| |
|---|
| **mae'n ddiflas.** |
| **mae'n anodd.** |
| **dydy o / hi ddim yn hoffi cadw'n heini.** |
| **dydy o / hi ddim yn hoffi bod tu mewn.** |
| **dydy o / hi ddim yn hoffi bod tu allan.** |
| **dydy o / hi ddim yn hoffi colli.** |
| **dydy o / hi ddim yn gystadleuol.** |

# Pwy ydy hi?  Beth mae hi'n hoffi?



Nerys Morris ydy hi.  Mae hi'n hoffi canu achos mae'n hwyl.

# Pwy ydy hi?  Be mae hi’n hoffi / licio?



Nerys Morris ydy hi.  Mae hi’n hoffi / licio canu achos mae'n hwyl.

# Pwy ydy e? Beth mae e’n hoffi?



Kai Lloyd ydy e.
Mae e’n hoffi chwarae rygbi achos mae e'n gystadleuol.

# Pwy ydy o?  Be mae o’n hoffi / licio?



Kai Lloyd ydy o.
Mae o’n hoffi / licio chwarae rygbi achos mae o'n gystadleuol.

Dywedwch y brawddegau canlynol wrth eich partner, e.e.
Mae Ela'n hoffi ...
Mae hi'n hoffi ....

| | | |
|---|---|---|
| Ela |  |  |
| Jacob |  |  |
| Dafydd |  |  |
| Cari |  |  |
| Catrin |  |  |
| Alun |  |  |
| Helen |  |  |
| Leah |  |  |
| Kai |  |  |



**Gwaith pâr**

1. Mae'r daflen yn y ffolder.
2. Dywedwch y brawddegau ar lafar, e.e. "Mae Jacob yn hoffi afal." / "Mae e'n hoffi afal."



Dywedwch y brawddegau canlynol wrth eich partner, e.e.
Mae Ela'n hoffi ...
Mae hi'n hoffi ....

| | | |
|---|---|---|
| Ela | | |
| Jacob | | |
| Dafydd | | |
| Cari | | |
| Catrin | | |
| Alun | | |
| Helen | | |
| Leah | | |
| Kai | | |



## Gwaith pâr

1. Mae'r daflen yn y ffolder.
2. Dudwch y brawddegau ar lafar, e.e. "Mae Jacob yn hoffi afal." / "Mae o'n licio afal."

# Ydy e'n / hi’n hoffi?

*Does he / she like?*

Ydy hi'n hoffi siocled?

Ydy hi'n hoffi darllen?

Ydy e'n hoffi Mathemateg?

Ydy e'n hoffi dysgu Cymraeg?

Ydy

Nac ydy

# Ydy o'n / hi'n hoffi / licio?

*Does he / she like?*

Ydy hi'n hoffi / licio siocled?

Ydy hi'n hoffi / licio darllen?

Ydy o'n hoffi / licio Mathemateg?

Ydy o'n hoffi licio dysgu Cymraeg?

Ydy

Nac ydy

# Ydy hi'n hoffi?

Ydy hi'n hoffi dysgu Cymraeg?

**Ydy, mae hi'n hoffi dysgu Cymraeg.**

# Ydy hi'n hoffi / licio?

Ydy hi'n hoffi / licio dysgu Cymraeg?

**Ydy, mae hi'n hoffi / licio dysgu Cymraeg.**

# Ydy e’n hoffi?

Ydy e'n hoffi Mathemateg?

**Nac ydy, dydy e ddim yn hoffi Mathemateg.**

# Ydy o'n hoffi / licio?

Ydy o'n hoffi / licio Mathemateg?

**Nac ydy, dydy o ddim yn hoffi / licio Mathemateg.**

# Pam?!

Mae e'n hoffi ... **achos**...

Mae hi'n hoffi ... **achos**...

| |
|---|
| **mae'n hwyl.** |
| **mae'n ddiddorol.** |
| **mae'n fendigedig.** |
| **mae'n ffordd dda i ymlacio.** |
| **mae e'n / hi'n hoffi cadw'n heini.** |
| **mae e'n / hi'n hoffi ennill!** |
| **mae e'n / hi'n gystadleuol.** |
| **mae e'n / hi'n hoffi cael awyr iach.** |

# Pam?!

Mae o’n hoffi / licio ... **achos**...

Mae hi’n hoffi / licio ... **achos**...

| |
|---|
| **mae'n hwyl.** |
| **mae'n ddiddorol.** |
| **mae'n fendigedig.** |
| **mae'n ffordd dda i ymlacio.** |
| **mae o'n / hi'n hoffi cadw'n heini.** |
| **mae o'n / hi'n hoffi ennill!** |
| **mae o'n / hi'n gystadleuol.** |
| **mae o'n / hi'n hoffi cael awyr iach.** |

# Pam?!

Dydy e ddim yn hoffi ... **achos**...

Dydy hi ddim yn hoffi ... **achos**...



| |
|---|
| **mae'n ddiflas.** |
| **mae'n anodd.** |
| **dydy e / hi ddim yn hoffi cadw'n heini.** |
| **dydy e / hi ddim yn hoffi bod tu mewn.** |
| **dydy e / hi ddim yn hoffi bod tu allan.** |
| **dydy e / hi ddim yn hoffi colli.** |
| **dydy e / hi ddim yn gystadleuol.** |

# Pam?!

Dydy o ddim yn hoffi / licio
… **achos**…

Dydy hi ddim yn hoffi / licio
… **achos**…

| |
|---|
| **mae'n ddiflas.** |
| **mae'n anodd.** |
| **dydy o / hi ddim yn hoffi cadw'n heini.** |
| **dydy o / hi ddim yn hoffi bod tu mewn.** |
| **dydy o / hi ddim yn hoffi bod tu allan.** |
| **dydy o / hi ddim yn hoffi colli.** |
| **dydy o / hi ddim yn gystadleuol.** |

# **Pa … mae … hoffi?**
*Which … does … like?*

| | | |
|---|---|---|
| Pa **liw** *(colour)* | mae Rhys yn hoffi? | Mae Rhys yn hoffi **glas.** |
| Pa **ffrwyth** *(fruit)* | mae e'n hoffi? | Mae e'n hoffi **mefus.** |
| Pa **lyfr** *(book)* | mae Lucy'n hoffi? | Mae Lucy'n hoffi ***'The BFG'***. |
| Pa **ffilm** *(film)* | mae hi'n hoffi? | Mae hi'n hoffi ***'Wonder'***. |

# Pa … mae … hoffi / licio?

*Which … does … like?*

| | | |
|---|---|---|
| Pa **liw** *(colour)* | mae Rhys yn hoffi? | Mae Rhys yn hoffi **glas.** |
| Pa **ffrwyth** *(fruit)* | mae o’n hoffi? | Mae o’n hoffi **mefus.** |
| Pa **lyfr** *(book)* | mae Lucy’n hoffi? | Mae Lucy’n hoffi '***The BFG***'. |
| Pa **ffilm** *(film)* | mae hi’n hoffi? | Mae hi’n hoffi '***Wonder***'. |

# Codwch a sgwrsiwch!



| Pwy wyt ti? | Pa liw wyt ti'n hoffi? | Pa fwyd wyt ti'n hoffi? | Pa ddiod wyt ti'n hoffi? | Pa lyfr wyt ti'n hoffi? |
|---|---|---|---|---|
| 1. | | | | |
| 2. | | | | |
| 3. | | | | |
| 4. | | | | |
| 5. | | | | |

# Beth ddysgoch chi?

*What did you learn?*



**Gwybodaeth i'r tiwtor**

1. Gofynnwch y cwestiynau canlynol ar hap i'r myfyrwyr.
2. Maen nhw wedi bod yn defnyddio'r patrwm ail berson unigol (**ti**) wrth holi'r cwestiynau.  Ond, wrth i chi eu holi bydd angen defnyddio'r patrwm y trydydd personol unigol (**fe**/**hi**).

- Pa liw mae .... yn hoffi?
- Pa fwyd mae ... yn hoffi?
- Pa ddiod mae ... yn hoffi?
- Pa lyfr mae ... yn hoffi?

# Be ddysgoch chi?

*What did you learn?*



**Gwybodaeth i'r tiwtor**

1. Gofynnwch y cwestiynau canlynol ar hap i'r myfyrwyr.
2. Maen nhw wedi bod yn defnyddio'r patrwm ail berson unigol (**ti**) wrth holi'r cwestiynau. Ond, wrth i chi eu holi mi fydd angen defnyddio'r patrwm y trydydd personol unigol (**fo**/**hi**).

- Pa liw mae .... yn hoffi / licio?
- Pa fwyd mae ... yn hoffi / licio?
- Pa ddiod mae ... yn hoffi / licio?
- Pa lyfr mae ... yn hoffi / licio?

# Beth mae e / hi eisiau?
*What does he / she want?*

**Mae Rhys eisiau siocled.**
**Mae e eisiau siocled.**

*Rhys wants chocolate.*
*He wants chocolate.*

**Mae Nia eisiau llaeth.**
**Mae hi eisiau llaeth.**

*Nia wants milk.*
*She wants milk.*

Does dim **yn** neu **‘n** o flaen ‘**eisiau**’.

# Be mae o / hi isio?
*What does he / she want?*

**Mae Rhys isio siocled.**
**Mae o isio siocled.**

*Rhys wants chocolate.*
*He wants chocolate.*

**Mae Nia isio llefrith.**
**Mae hi isio llefrith.**

*Nia wants milk.*
*She wants milk.*

Does dim **yn** neu **‘n** o flaen ‘**isio**’.

# Cyfieithwch y brawddegau canlynol:

*Translate the following sentences:*



1. I like coffee.
2. She likes tea.
3. Siân likes milk.
4. He likes fruit.

5. I want coffee.
6. She wants tea.
7. Dewi wants milk.
8. He wants fruit.

# Cyfieithwch y brawddegau canlynol:
*Translate the following sentences:*



1. I like coffee.
2. She likes tea.
3. Siân likes milk.
4. He likes fruit.

5. I want coffee.
6. She wants tea.
7. Dewi wants milk.
8. He wants fruit.

**Rydw i'n hoffi coffi. / Dw i'n hoffi coffi.**
**Mae hi'n hoffi te.**
**Mae Siân yn hoffi llaeth.**
**Mae e'n hoffi ffrwythau.**

**Rydw i eisiau coffi. / Dw i eisiau coffi.**
**Mae hi eisiau te.**
**Mae Dewi eisiau llaeth.**
**Mae e eisiau ffrwythau.**

# **Cyfieithwch y brawddegau canlynol:**

*Translate the following sentences:*



1. I like coffee.
2. She likes tea.
3. Siân likes milk.
4. He likes fruit.

5. I want coffee.
6. She wants tea.
7. Dewi wants milk.
8. He wants fruit.

**Rydw / Dw i'n hoffi / licio coffi.**
**Mae hi'n hoffi / licio te.**
**Mae Siân yn hoffi / licio llefrith.**
**Mae o'n hoffi / licio ffrwythau.**

**Rydw i isio coffi.** / **Dw i isio coffi.**
**Mae hi isio te.**
**Mae Dewi isio llefrith.**
**Mae o isio ffrwythau.**

# Amser snac

Beth mae Nel eisiau amser snac?
Beth mae hi eisiau amser snac?

Beth mae Bryn eisiau i ginio?
Beth mae e eisiau i ginio?

Beth mae hi eisiau i frecwast?
Beth mae e eisiau i swper?

**Beth ...?**
*What ...?*

# Amser snac

Be mae Nel isio amser snac?
Be mae hi isio amser snac?

Be mae Bryn isio i ginio?
Be mae o isio i ginio?

Be mae hi isio i frecwast?
Be mae o isio i swper?

**Be ...?**
*What ...?*

# Yn yr uwchradd ...

Beth mae Nerys eisiau amser egwyl?
Beth mae hi eisiau i yfed?

Beth mae Bryn eisiau coginio?
Beth mae e eisiau ysgrifennu?

Beth mae hi eisiau gwneud?
Beth mae e eisiau gwneud nesaf?

| | |
|---|---|
| **amser egwyl** | *breaktime* |
| **yfed** | *to drink* |
| **coginio** | *to cook* |
| **ysgrifennu** | *to write* |
| **gwneud** | *to do* |
| **nesaf** | *next* |

# Yn yr uwchradd ...

Be mae Nerys isio amser egwyl?
Be mae hi isio i yfed?

Be mae Bryn isio coginio?
Be mae o isio ysgrifennu?

Be mae hi isio gwneud?
Be mae o isio gwneud nesaf?

| | |
|---|---|
| **amser egwyl** | *breaktime* |
| **yfed** | *to drink* |
| **coginio** | *to cook* |
| **ysgrifennu** | *to write* |
| **gwneud** | *to do* |
| **nesaf** | *next* |

# Ydy e / hi eisiau?

Ydy e eisiau llaeth?

Ydy e eisiau darllen stori?

Ydy hi eisiau pensil?

Ydy hi eisiau chwarae gêm?

Ydy

Nac ydy

# Ydy o / hi isio?

Ydy o isio llefrith?

Ydy o isio darllen stori?

Ydy hi isio pensil?

Ydy hi isio chwarae gêm?

Oes / Ydy

Nac oes / Nac ydy

# Ydy e eisiau?

Ydy e eisiau llaeth?

**Ydy, mae e eisiau llaeth.**

# Ydy o isio?

Ydy o isio llefrith?

**Ydy, mae o isio llefrith.**
**Oes, mae o isio llefrith.**

# Ydy hi eisiau?

Ydy hi eisiau chwarae gêm?

**Nac ydy, dydy hi ddim eisiau chwarae gêm.**

# Ydy hi isio?

Ydy hi isio chwarae gêm?

**Nac ydy, dydy hi ddim isio chwarae gêm.**
**Nac oes, dydy hi ddim isio chwarae gêm.**

# **Tasg Wrando** *Listening Task*



Beth mae Siân eisiau i fwyta?
Beth mae Siân eisiau i yfed?

Beth mae Macs eisiau i fwyta?
Beth mae Macs eisiau i yfed?



Cliciwch yma

# **Tasg Wrando** *Listening Task*



Be mae Siân isio i fwyta?
Be mae Siân isio i yfed?

Be mae Macs isio i fwyta?
Be mae Macs isio i yfed?



Cliciwch yma

**An**
**ffeil**
**gog**

| | |
|---|---|
| Dad: | Beth wyt ti eisiau Siân? |
| Siân: | Rydw i eisiau brechdanau caws a ham. |
| Dad: | Wyt ti eisiau rhywbeth i yfed? |
| Siân: | Ydw, plîs,  Rydw i eisiau sudd afal. |
| Dad: | Beth amdanat ti Macs?  Wyt ti eisiau sudd afal hefyd? |
| Macs: | Nac ydw, rydw i eisiau ysgytlaeth mefus plîs. |
| Dad: | Ac i fwyta? |
| Macs: | Rydw i eisiau ffa pob ar dost. |
| Dad: | Iawn... |
| Gweinydd: | Ydych chi eisiau archebu? |
| Dad: | Ydyn, os gwelwch yn dda.  Mae hi eisiau brechdanau caws a ham a sudd afal.  Mae e eisiau ffa pob ar dost ac ysgytlaeth mefus, ac rydw i eisiau cwpanaid o goffi a bara brith. |
| Gweinydd: | Diolch yn fawr. |

| | |
|---|---|
| Dad: | Be wyt ti isio Siân? |
| Siân: | Rydw i isio brechdanau caws a ham. |
| Dad: | Wyt ti isio rhywbeth i yfed? |
| Siân: | Ydw, plîs, Rydw i isio sudd afal. |
| Dad: | Be amdanat ti Macs? Wyt ti isio sudd afal hefyd? |
| Macs: | Nac ydw, rydw i isio ysgytlaeth mefus plîs. |
| Dad: | Ac i fwyta? |
| Macs: | Rydw i isio ffa pob ar dost. |
| Dad: | Iawn... |
| Gweinydd: | Dach chi isio archebu? |
| Dad: | Ydan, os gwelwch yn dda. Mae hi isio brechdanau caws a ham a sudd afal. Mae o isio ffa pob ar dost ac ysgytlaeth mefus, ac rydw i isio cwpanaid o goffi a bara brith. |
| Gweinydd: | Diolch yn fawr. |

# **Pwy sy eisiau ...?** *Who wants ...?*

| | |
|---|---|
| Pwy sy eisiau cinio ysgol? | Tom ac Elis sy eisiau cinio ysgol. |
| Pwy sy eisiau ffrwyth? | Dosbarth Derbyn sy eisiau ffrwyth. |
| Pwy sy eisiau llaeth? | Lois sy eisiau llaeth. |
| Pwy sy eisiau darllen? | Jac sy eisiau darllen. |
| Pwy sy eisiau helpu? | Bethan a Soffia sy eisiau helpu. |

# **Pwy sy isio ...?** *Who wants ...?*

| | |
|---|---|
| Pwy sy isio cinio ysgol? | Tom ac Elis sy isio cinio ysgol. |
| Pwy sy isio ffrwyth? | Dosbarth Derbyn sy isio ffrwyth. |
| Pwy sy isio llefrith? | Lois sy isio llefrith. |
| Pwy sy isio darllen? | Jac sy isio darllen. |
| Pwy sy isio helpu? | Bethan a Soffia sy isio helpu. |

# **Yn y dosbarth** (Cynradd)

Athro: **Nawr, blant, mae hi'n amser snac! Ydych chi eisiau ffrwyth?**

Plant: **Ydyn!**

Athro: **Lisa, wyt ti'n hoffi afal?**

Lisa: **Nac ydw, dw i ddim yn hoffi afal. Dw i'n hoffi banana.**

Athro: **Wyt ti eisiau banana?**

Lisa: **Ydw. Mae Luke eisiau banana hefyd, syr.**

Athro: **Luke, wyt ti eisiau banana?**

Luke: **Ydw, plîs.**

Ysgrifennwch sgwrs newydd gyda phartner.

# **Yn y dosbarth** (Cynradd)

Athro: **Rŵan, blant, mae hi'n amser snac! Dach chi isio ffrwyth?**

Plant: **Ydan!**

Athro: **Lisa, wyt ti'n hoffi afal?**

Lisa: **Nac ydw, dw i ddim yn hoffi afal. Dw i'n hoffi banana.**

Athro: **Wyt ti isio banana?**

Lisa: **Ydw. Mae Luke isio banana hefyd, syr.**

Athro: **Luke, wyt ti isio banana?**

Luke: **Ydw, plîs.**

Ysgrifennwch sgwrs newydd efo partner.

# Y Cyfnod Sylfaen:

# Amser Snac



## Geirfa — Vocabulary

| Geirfa | Vocabulary |
|---|---|
| **Ffrwyth (g) / au** | ***Fruit*** |
| afal (g) /au | *apple / s* |
| banana (b) /s | *banana / s* |
| grawnwin | *grapes* |
| mefus | *strawberries* |
| melon (g) | *melon* |
| oren (g) /nau | *orange / s* |
| peren (b) | *pear / s* |
| **Diod (b) / ydd** | ***Drink / s*** |
| dŵr (g) | *water* |
| llaeth (g) | *milk* |
| sudd (g) | *juice* |
| bisgedi | *biscuit /s* |
| cacen siocled (b) | *chocolate cake* |
| creision | *crisps* |
| tost (g) | *toast* |

| | |
|---|---|
| blasus | *tasty* |
| cyllell (b) | *knife* |
| darn | *piece* |
| hanner | *half* |
| iogwrt (g) | *yoghurt* |
| jam (g) | *jam* |
| llwy (b) | *spoon* |
| menyn (g) | *butter* |
| plât (g) | *plate* |
| trît (g) | *treat* |

| Berfau | *Verbs* |
|---|---|
| bwyta | *to eat* |
| eisiau | *to want / need* |
| golchi | *to wash* |
| helpu | *to help* |
| hoffi | *to like* |
| rhannu | *to share* |
| torri | *to cut* |
| yfed | *to drink* |

| Paratoi | *Preparation* |
|---|---|
| Rhaid tacluso. | *(You) must tidy up.* |
| Rhaid golchi dwylo. | *(You) must wash (your) hands.* |
| Wyt ti wedi tacluso? | *Have you tidied up?* |
| Ydw / Nac ydw | *Yes / No* |
| Ydych chi wedi golchi eich dwylo? | *Have you washed your hands?* |
| Ydyn / Nac ydyn | *Yes / No* |
| Ewch i olchi eich dwylo. | *Go and wash your hands.* |
| Pwy sy'n helpu heddiw? Fi. | *Who's helping today? Me.* |
| Pwy ydy helpwr heddiw? Tom. | *Who is 'helpwr heddiw?' Tom.* |

| Cael snac | *Having a snack* |
|---|---|
| Pwy sy' eisiau afal?<br>Fi. Dw i eisiau afal. | *Who wants an apple?*<br>*Me. I want an apple.* |
| Beth wyt ti eisiau?<br>Dw i eisiau grawnwin os gwelwch yn dda. | *What do you want?*<br>*I want (some) grapes please.* |
| Wyt ti eisiau iogwrt? Ydw / Nac ydw | *Do you want a yoghurt? Yes / No* |
| Dw i ddim eisiau creision. | *I don't want crisps.* |
| Beth mae Huw eisiau ?<br>Mae e eisiau oren. | *What does Huw want?*<br>*He wants an orange.* |
| Beth wyt ti'n hoffi?<br>Dw i'n hoffi sudd. Dw i ddim yn hoffi llaeth. | *What do you like?*<br>*I like juice. I don't like milk.* |
| Wyt ti'n hoffi melon? Ydw / Nac Ydw<br>Dyma ti.<br>Diolch yn fawr. | *Do you like melon? Yes / No*<br>*Here you are.*<br>*Thank you very much.* |
| Mmm, mae'n flasus.<br>Mae'r afal yn neis. | *Mmm, it's tasty.*<br>*The apple is nice.* |

# Y Cyfnod Sylfaen:

# Amser Snac



## Geirfa — Vocabulary

| Geirfa | Vocabulary |
| --- | --- |
| **Ffrwyth (g) / au** | ***Fruit*** |
| afal (g) /au | *apple / s* |
| banana (b) /s | *banana / s* |
| grawnwin | *grapes* |
| mefus | *strawberries* |
| melon (g) | *melon* |
| oren (g) /nau | *orange / s* |
| peren (b) | *pear / s* |
| **Diod (b) / ydd** | ***Drink / s*** |
| dŵr (g) | *water* |
| llaeth (g) | *milk* |
| sudd (g) | *juice* |
| bisgedi | *biscuit /s* |
| cacen siocled (b) | *chocolate cake* |
| creision | *crisps* |
| tost (g) | *toast* |

| | |
| --- | --- |
| blasus | *tasty* |
| cyllell (b) | *knife* |
| darn | *piece* |
| hanner | *half* |
| iogwrt (g) | *yoghurt* |
| jam (g) | *jam* |
| llwy (b) | *spoon* |
| menyn (g) | *butter* |
| plât (g) | *plate* |
| trît (g) | *treat* |

| Berfau | *Verbs* |
| --- | --- |
| bwyta | *to eat* |
| eisiau | *to want / need* |
| golchi | *to wash* |
| helpu | *to help* |
| hoffi | *to like* |
| rhannu | *to share* |
| torri | *to cut* |
| yfed | *to drink* |

| Paratoi | *Preparation* |
| --- | --- |
| Rhaid tacluso. | *(You) must tidy up.* |
| Rhaid golchi dwylo. | *(You) must wash (your) hands.* |
| Wyt ti wedi tacluso? | *Have you tidied up?* |
| Ydw / Nac ydw | *Yes / No* |
| Ydych chi wedi golchi eich dwylo? | *Have you washed your hands?* |
| Ydyn / Nac ydyn | *Yes / No* |
| Ewch i olchi eich dwylo. | *Go and wash your hands.* |
| Pwy sy'n helpu heddiw? Fi. | *Who's helping today? Me.* |
| Pwy ydy helpwr heddiw? Tom. | *Who is 'helpwr heddiw?' Tom.* |

| Cael snac | *Having a snack* |
| --- | --- |
| Pwy sy' eisiau afal? | *Who wants an apple?* |
| Fi. Dw i eisiau afal. | *Me. I want an apple.* |
| Beth wyt ti eisiau? | *What do you want?* |
| Dw i eisiau grawnwin os gwelwch yn dda. | *I want (some) grapes please.* |
| Wyt ti eisiau iogwrt? Ydw / Nac ydw | *Do you want a yoghurt? Yes / No* |
| Dw i ddim eisiau creision. | *I don't want crisps.* |
| Beth mae Huw eisiau ? | *What does Huw want?* |
| Mae e eisiau oren. | *He wants an orange.* |
| Beth wyt ti'n hoffi? | *What do you like?* |
| Dw i'n hoffi sudd. Dw i ddim yn hoffi llaeth. | *I like juice. I don't like milk.* |
| Wyt ti'n hoffi melon? Ydw / Nac Ydw | *Do you like melon? Yes / No* |
| Dyma ti. | *Here you are.* |
| Diolch yn fawr. | *Thank you very much.* |
| Mmm, mae'n flasus. | *Mmm, it's tasty.* |
| Mae'r afal yn neis. | *The apple is nice.* |

# **Pwy sy eisiau ...?** (Uwchradd)

Pwy sy eisiau help?

Pwy sy eisiau helpu?

Pwy sy eisiau gweithio gyda phartner?

Pwy sy eisiau gweithio ar y cyfrifiadur?

Pwy sy eisiau gweithio'n annibynnol?

| | |
|---|---|
| **help** | *help* |
| **helpu** | *to help* |
| **gweithio** | *to work* |
| **gyda phartner** | *with a partner* |
| **ar y cyfrifiadur** | *on the computer* |
| **yn annibynnol** | *independently* |

# **Pwy sy isio ...?** (Uwchradd)

Pwy sy isio help?

Pwy sy isio helpu?

Pwy sy isio gweithio efo partner?

Pwy sy isio gweithio ar y cyfrifiadur?

Pwy sy isio gweithio'n annibynnol?

| | |
|---|---|
| **help** | *help* |
| **helpu** | *to help* |
| **gweithio** | *to work* |
| **efo partner** | *with a partner* |
| **ar y cyfrifiadur** | *on the computer* |
| **yn annibynnol** | *independently* |

# **Yn y dosbarth** (Uwchradd)



Athro: **Nawr, blant, mae hi'n amser gwneud y dasg. Ydych chi'n barod?**

Plant: **Ydyn!**

Athro: **Nia, wyt ti'n hoffi gweithio gyda phartner?**

Nia: **Nac ydw, dw i ddim yn hoffi gweithio gyda phartner. Dw i'n hoffi gweithio'n annibynnol.**

Athro: **Wyt ti eisiau gweithio gyda phartner, Noah?**

Noah: **Ydw. Mae Elis eisiau gweithio gyda phartner hefyd, Syr.**

Athro: **Elis, wyt ti eisiau gweithio gyda Noah?**

Elis: **Ydw, plîs.**

Ysgrifennwch sgwrs newydd gyda phartner.

# **Yn y dosbarth** (Uwchradd)

Athro: **Rŵan, blant, mae hi'n amser gwneud y dasg. Dach chi'n barod?**

Plant: **Ydan!**

Athro: **Nia, wyt ti'n hoffi gweithio efo partner?**

Nia: **Nac ydw, dw i ddim yn hoffi gweithio efo partner. Dw i'n hoffi gweithio'n annibynnol.**

Athro: **Wyt ti isio gweithio efo partner, Noah?**

Noah: **Ydw. Mae Elis isio gweithio efo partner hefyd, Syr.**

Athro: **Elis, wyt ti isio gweithio efo Noah?**

Elis: **Ydw, plîs.**

Ysgrifennwch sgwrs newydd efo partner.

# Oes ... gyda fe / hi?

*Does he / she have ...?*

Oes pensil gyda fe?

Oes gwallt brown gyda fe?

Oes ci gyda hi?

Oes brawd gyda hi?

**Oes**

**Nac oes**

# Oes gynno fo / gynni hi ...?

*Does he / she have ...?*

Oes gynno fo bensil?

Oes gynno fo wallt brown?

Oes gynni hi gi?

Oes gynni hi frawd?

**Oes**

**Nac oes**

# Oes ... gyda fe?

Oes gwallt brown gyda fe?

**Oes, mae gwallt brown gyda fe.**

# Oes gynno fo ...?

Oes gynno fo <u>w</u>allt brown?

**Oes, mae gynno fo <u>w</u>allt brown.**

# Oes ... gyda hi?

Oes brawd gyda hi?

**Nac oes, does dim brawd gyda hi.**

# Oes gynni hi ...?

Oes gynni hi frawd?

**Nac oes, does gynni hi ddim brawd.**

# Oes ... gyda fe / hi?

<table>
<tr><td rowspan="5">gwallt (hair)</td><td>du</td><td>hir (long)</td></tr>
<tr><td>brown</td><td>byr (short)</td></tr>
<tr><td>sinsir (ginger)</td><td>syth (straight)</td></tr>
<tr><td>golau (light / blond)</td><td rowspan="2">cyrliog (curly)</td></tr>
<tr><td>tywyll (dark)</td></tr>
<tr><td rowspan="3">llygaid (eyes)</td><td>mawr</td><td>glas</td></tr>
<tr><td rowspan="2">bach</td><td>gwyrdd</td></tr>
<tr><td>brown</td></tr>
<tr><td rowspan="2">croen (skin)</td><td>golau</td><td rowspan="4">Oes, mae … gyda fe / hi.<br><br>Nac oes, does dim … gyda fe / hi.</td></tr>
<tr><td>tywyll</td></tr>
<tr><td rowspan="2">bochau (cheeks)</td><td>coch</td></tr>
<tr><td>pinc</td></tr>
</table>

# Oes gynno fo / gynni hi ...?

| | | |
|---|---|---|
| **gwallt** *(hair)* | du | hir *(long)* |
| | brown | byr *(short)* |
| | sinsir *(ginger)* | syth *(straight)* |
| | golau *(light / blond)* | cyrliog *(curly)* |
| | tywyll *(dark)* | |
| **llygaid** *(eyes)* | mawr | glas |
| | bach | gwyrdd |
| | | brown |
| **croen** *(skin)* | golau | **Oes, mae gynno fo / gynni hi ...**<br><br>**Nac oes, does gynno fo / gynni hi ddim...** |
| | tywyll | |
| **bochau** *(cheeks)* | coch | |
| | pinc | |

# Gêm - Pwy ydy e / hi?




**<u>Cyfarwyddiadau i'r tiwtor</u>**

1. Gofynnwch i'r myfyrwyr ddewis cymeriad.
2. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu 5 brawddeg i ddisgrifio eu cymeriad gan ddefnyddio patrymau trydydd person.
3. Yn eu tro, rhowch gyfle iddyn nhw ddarllen eu disgrifiad yn uchel tra bod y lleill yn dyfalu pwy ydyn nhw.

# Gêm - Pwy ydy o / hi?




**Cyfarwyddiadau i'r tiwtor**

1. Gofynnwch i'r myfyrwyr ddewis cymeriad.
2. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu 5 brawddeg i ddisgrifio eu cymeriad gan ddefnyddio patrymau trydydd person.
3. Yn eu tro, rhowch gyfle iddyn nhw ddarllen eu disgrifiad yn uchel tra bod y lleill yn dyfalu pwy ydyn nhw.

# Oes ... gyda fe / hi?






**Oes,**
**mae … gyda fe / hi.**

**Nac oes,**
**does dim … gyda fe / hi.**

# Oes gynno fo / gynni hi ...?






Oes, mae gynno fo / gynni hi ...

Nac oes, does gynno fo / gynni hi ddim …

# Oes ... gyda fe / hi?

| Y Teulu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **mam** | *mother* | **mab** | *son* | **ewythr** | *uncle* |
| **llysfam** | *stepmother* | **merch** | *daughter* | **wyr** | *grandson* |
| **tad** | *father* | **mab yngnghyfraith** | *son in law* | **wyres** | *granddaughter* |
| **llysdad** | *stepfather* | **merch yngnghyfraith** | *daughter in law* | **gŵr** | *husband* |
| **brawd** | *brother* | **cefnder** | *cousin (male)* | **gwraig** | *wife* |
| **chwaer** | *sister* | **cyfnither** | *cousin (female)* | **partner** | *partner* |
| **rhieni** | *parents* | **modryb** | *auntie* | **mam-gu** | *grandmother* |
| **tad-cu** | *grandfather* | **taid** | *grandfather (North Wales)* | **nain** | *grandmother (North Wales)* |

**Oes, mae … gyda fe / hi.** **Nac oes, does dim … gyda fe / hi.**

# Oes gynno fo / gynni hi ...?

| Y Teulu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **mam** | *mother* | **mab** | *son* | **ewythr** | *uncle* |
| **llysfam** | *stepmother* | **merch** | *daughter* | **wyr** | *grandson* |
| **tad** | *father* | **mab yngnghyfraith** | *son in law* | **wyres** | *granddaughter* |
| **llysdad** | *stepfather* | **merch yngnghyfraith** | *daughter in law* | **gŵr** | *husband* |
| **brawd** | *brother* | **cefnder** | *cousin (male)* | **gwraig** | *wife* |
| **chwaer** | *sister* | **cyfnither** | *cousin (female)* | **partner** | *partner* |
| **rhieni** | *parents* | **modryb** | *auntie* | **mam-gu** | *grandmother* |
| **tad-cu** | *grandfather* | **taid** | *grandfather (North Wales)* | **nain** | *grandmother (North Wales)* |

**Oes, mae gynno fo / gynni hi ...**

**Nac oes, does gynno fo / gynni hi ddim ...**

# Gêm Adolygu



**Cyfarwyddiadau i'r tiwtor**

- Bydd angen un dis poced arnoch.
- Yn y dis, rhowch y cardiau marc cwestiwn, bawd i fyny, bawd i lawr (sleid nesaf).
- Gofynnwch i'r myfyrwyr daflu'r dis.
- Pan fydd y dis yn glanio ar y marc cwestiwn, rhaid i'r myfyriwr ofyn cwestiwn, e.e. **Ble mae hi'n byw? / Beth mae Tom yn hoffi? / Pwy sy eisiau afal? / Oes gwallt brown gyda fe?**
- Pan fydd y dis yn glanio ar y bawd i fyny, rhaid i'r myfyriwr ddweud brawddeg gadarnhaol, e.e. **Mae hi'n byw yng Nghaerfyrddin. / Mae e'n hoffi cyri. / Mae Sara eisiau afal. / Mae chwaer gyda hi.**
- Pan fydd y dis yn glanio ar y bawd i lawr, rhaid i'r myfyriwr ddweud brawddeg negyddol, e.e. **Dydy e ddim yn hoffi darllen. / Dydy hi ddim eisiau chwarae gêm. / Does dim ci gyda fe.**

# Gêm Adolygu



**<u>Cyfarwyddiadau i’r tiwtor</u>**

- Mi fydd angen un dis poced arnoch.
- Yn y dis, rhowch y cardiau marc cwestiwn, bawd i fyny, bawd i lawr (sleid nesaf).
- Gofynnwch i’r myfyrwyr daflu’r dis.
- Pan fydd y dis yn glanio ar y marc cwestiwn, rhaid i’r myfyriwr ofyn cwestiwn, e.e. **Lle mae hi'n byw? / Be mae Tom yn hoffi? / Pwy sy isio afal? / Oes gynno fo <u>w</u>allt brown?**
- Pan fydd y dis yn glanio ar y bawd i fyny, rhaid i’r myfyriwr ddweud brawddeg gadarnhaol, e.e. **Mae hi'n byw <u>yng Ngh</u>aerfyrddin. / Mae o’n hoffi cyri. / Mae Sara isio afal. / Mae gynni hi chwaer.**
- Pan fydd y dis yn glanio ar y bawd i lawr, rhaid i’r myfyriwr ddweud brawddeg negyddol, e.e. **Dydy o <u>dd</u>im yn hoffi darllen. / Dydy hi <u>dd</u>im isio chwarae gêm. / Does gynno fo <u>dd</u>im ci.**

# Gêm Adolygu





# Tasg i'r Portffolio

## Tasg Llafar 2: Sylfaen A2

(o'r Pecyn Cymorth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Cael sgwrs amdanoch chi'ch hun ac yna am berson arall gan ddefnyddio'r trydydd person

*Have a conversation about yourself then about another person using the third person patterns*

# Tasg i’r Portffolio

## Tasg Darllen 2: Sylfaen A2

(o’r Pecyn Cymorth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Darllen e-bost ac ateb cwestiynau gan ddefnyddio ‘hoffi’ ac ‘eisiau’

*Reading an e-mail and answering questions using* 'hoffi' *and* 'eisiau'

# **Munud i feddwl ...** *Time to think ...*

**Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?**
*Which language acquisition techniques were used in this lecture?*


Drilio


Ymarfer ar lafar (yn unigol)


Gwaith pâr


Amser canu


Gwaith ar y byrddau gwyn


Grŵp o dri


Tasg ddarllen


Tasg wrando


Tasg ysgrifennu







# Da iawn chi!

# Daliwch ati!